O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2949 (Cy. 303)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55 a'r A494 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 35 a Chyffordd 33b, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*26 Tachwedd 2012*
Yn dod i rym	*3 Rhagfyr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) a Chefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith a wneir arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Rhagfyr 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55 a'r A494 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 35 a Chyffordd 33b, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 18:30 o'r gloch ar 3 Rhagfyr